Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

**E-FWLETIN 38 – 8 IONAWR 2010**

Blwyddyn Newydd Dda i chi – gobeithio eich bod yn llwyddo i gadw'n gynnes ac yn saff yn y tywydd oer yma.

Rhaid dechrau'r e-fwletin hwn efo'r wybodaeth bod dau ddigwyddiad oedd i'w cynnal yma yfory wedi eu canslo oherwydd y tywydd oer.

Y cyntaf yw **BORE COFFI'R MAER** a'r llall yw'r sioe ***STORIES WITH WINGS, BRAVE GIRLS & CELTIC KINGS*** oedd fod i gychwyn am 7.30. Y mae'r sioe hon wedi'i hail-drefnu ar gyfer nos Sadwrn, 20 Mawrth – ond cewch gadarnhad o hynny yn nes at y dyddiad.

Mae'r tywydd drwg hefyd wedi rhwystro aelodau Cymdeithas Gelf Ceredigion rhag dod yma i dynnu eu harddangosfa i lawr, felly bydd honno yma am wythnos arall! Dyma fydd eich cyfle olaf i weld a phrynu'r amrywiaeth helaeth o luniau sydd yn yr arddangosfa hon.

Nodir yma'r digwyddiadau sydd ymlaen yma dros weddill y mis.

**BIWRO GWIRFODDOLI CAVO**
**10.00-4.00, dydd Iau, 21 Ionawr**
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli.

**BYW AR Y TIR**
**19 Ionawr-26 Chwefror**
Arddangosfa ddwyieithog yn rhoi cipolwg ar hanes ffermio yng Nghymru. Mae'r Morlan yn ddiolchgar iawn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am gael benthyg yr arddangosfa hon. Oriau agor swyddogol: Llun i Gwener, 10.00-12.00 & 2.00-4.00. I gyd-fynd â'r arddangosfa bydd Elin Jones, AC yn annerch yma am 7.00, nos Wener, 29 Ionawr – mwy o fanylion i ddilyn.

**ROGER BRAY YN SIARAD AM Y GRŴP "ABER GWYRDDACH"**
**2.30, dydd Iau, 21 Ionawr**
Cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

***PIG BUSINESS***
**7.00, nos Iau, 21 Ionawr**
A wyddoch chi gwir gost cig rhad? Mae Cyfeillion y Ddaear Aberystwyth yn cyflwyno dangosiad rhad ac am ddim o'r ffilm ddogfen hon sy'n ganlyniad i ymchwiliad 4 blynedd i'r effaith difrodus y mae ffermio dwys yn ei gael ar yr amgylchedd, iechyd pobl, bywoliaeth wledig a lles anifeiliaid. Lluniaeth ysgafn ar gael. Gwybodaeth bellach: aberystwythfoe@yahoo.co.uk; 01974-272218.

**CYNEFIN Y WERIN / ACADEMI HEDDWCH CYMRU**
**1.30, dydd Sadwrn, 23 Ionawr**
Cyfarfod pellach i drafod a chynllunio ar gyfer yr ymgyrch i sefydlu Academi Heddwch i Gymru.

**DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST**
**12.00-2.00, Mercher, 27 Ionawr**
Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2010 yw ***Etifeddiaeth Gobaith*** ac, eleni, mae'r diwrnod hefyd yn nodi 65 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz-Birkenau. Mae Morlan yn darparu cyfle i chi ymdawelu, myfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil-laddiadau, ac fel arwydd o obaith ar gyfer y dyfodol. Mae gan bob un ohonom gyfle i fod yn rhan o'r Etifeddiaeth Gobaith, trwy wrando ar leisiau'r rhai sydd wedi goroesi, a defnyddio'u gobeithion a'u hatgofion nhw i helpu creu dyfodol gwell. Galwch mewn am ychydig funudau yn ystod eich amser cinio. Croeso i bawb.

**FFORWM 50+ ABERYSTWYTH**
**2.00-4.00, Mercher, 27 Ionawr**
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr